

# Gweithredu Gwyrdd

Cylchgrawn Cyfeillion y Ddaear Cymru


2009



**Cyfeillion  
y Ddaear  
Cymru**

**Friends of  
the Earth  
Cymru**

**SWYDDI GWYRDD I GYMRU**  
**Cael yr economi i weithio eto**



**Beth sy'n bwydo eich bwyd?**

Ffigurau allyriadau wedi'u symleiddio | Yn y Cynulliad | Ymunwch â grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear

# Mae'n dda bod yn boblogaidd am unwaith

Arferem bob amser gael ein cyhuddo o fod yn ddigalon. Pobl yr ofn a'r braw, yr amgylcheddwyr crysau gwlanen, dylai pawb fyw mewn ogof a bwyta llysiau llawn mwd.

Ddim yn wir wrth gwrs gan ein bod bob amser wedi cynnig atebion ymarferol modern. Ond o'r diwedd rydym ni'r amgylcheddwyr yn cael ein cydnabod fel y rhai cadarnhaol. A glywsoch chi am fancwr hapus yn ddiweddar?

Rydym yn osgoi'r sylw smyg 'Ddwedon ni'. Yn wir mae'r anrhefn economaidd rydym ni ynddo yn golygu nad oes unrhyw un yn falch i fod yn smyg. Ond mae'n ymddangos bod y gwersi yn dechrau cael eu dysgu. Efallai bod gan ddefnydd synhwyrol ar adnoddau gysylltiad â thwf. Hwyrach bod effeithlonrwydd ynni wedi'r cwbl yn effeithlon. Efallai bod economïau cynaliadwy yn fwy cynaliadwy wedi'r cwbl.

Ond yr hyn sy'n ein gwneud yn smyg yw gwybod bod gennym rai atebion eithaf da. Oherwydd gallai'r un mesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael

a newid hinsawdd a sicrhau byd iach hefyd roi'r sbardun i'n heconomiâu claf. Mae llawer o arweinwyr yn sylweddoli bod cael ein heconomiâu allan o'r coch yn golygu troi'n wyrdd. A dyw hynny ddim yn fwy gwir yn unman nag yng Nghymru, fel y mae Gordon James Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ei archwilio ar dudalen saith.

Beth bynnag yw cyflwr yr economi, mae yna un peth nad allwn ni fyth wneud hebdo - bwyd. Ac os ydym yn mynd i fynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd mae gwneud yn siŵr bod ein bwyd yn cael ei gynhyrchu mewn modd mor gynaliadwy â phosibl yn hollbwysig. Ar hyn o bryd mae cymorthdaliadau llywodraeth yn cynnal cadwyn gudd sy'n cysylltu ein hoffter am gig a bwydydd llaeth i ddinistriad fforestydd glaw yn Ne America. Trowch i dudalen 10 i ddarllen am ein hymgyrch newydd i gywiro'r gadwyn fwyd a sut y gall ffermwyr Cymru elwa o hyn hefyd.

Mae llawer o ffigurau yn gysylltiedig â mynd i'r afael â newid hinsawdd – 'tri

y cant y flwyddyn', '80 y cant erbyn 2050', '1.8 y cant ers 1990'. Felly yn nhudalennau canol y rhifyn cewch ganllaw cryno i rai ohonynt. Nid ydynt yn gwneud i Gymru ymddangos yn rhy dda, ond i ddatrys y broblem mae'n rhaid i ni wybod y ffeithiau.

Ar y dudalen gyferbyn cewch wybod am rai o'r ffyrdd y gallwch chi ein cynorthwyo ni. Yn yr adegau anodd hyn rydym am gael eich cymorth yn fwy nag erioed. Diolch i chi os ydych yn ein cynorthwyo'n barod - mae Cyfeillion y Ddaear yn dibynnu ar unigolion fel chi am dros 90% o'n hincwm. Heb ddigon o arian mae'n anodd cynhyrchu'r atebion sydd eu hangen arnom a hyd yn oed yn fwy anodd i wneud yn siŵr bod ein harweinwyr yn gwranddo.

Ac i gael hyd yn oed rhagor o ddewisiadau ar gyfer cyfranogi, trowch i dudalen wyth i gael syniad o'r hyn y mae ein grwpiau lleol wrthi'n ei wneud ledled Cymru. Efallai y cewch eich ysbrydoli i ymuno a gwneud eich gwahaniaeth eich hun yn lleol.

**Simon Williams, Golygydd**

## cynnwys

### 3 O ddifri yn lleol

Ymgyrch newydd yn targedu cynghorau

### 4 Nid yw Cymru yn dwp

Ffilm hinsawdd newydd gref

### 4 Diogelu Sir Benfro

21 mlynedd o ymgyrchu amgylcheddol yng ngorllewin Cymru

### 4 Yn gryno

Newyddion Amgylcheddol yng Nghymru

### 5 Ynni Gwyrddach?

Gwynt, llanw, CHP – a yw ynni yng Nghymru yn dod yn wyrddach o gwbl?

### 5 Yn y Cynulliad

Llawer o siarad gwyrdd, nawr lle mae'r gweithredu

### 7 Swyddi gwyrdd

'Nawr yw'r amser i weithredu ar swyddi gwyrdd', meddai Llywodraeth Cynulliad Cymru

### 8 Gweithredu'n lleol

Cymerwch ran yng ngwaith eich grŵp Cyfeillion y Ddaear lleol

### 10 Cywiro'r gadwyn fwyd

Helpwch ni i dorri'r cysylltiad rhwng ffermio cig a llaeth a dinistriad fforestydd glaw sy'n newid yr hinsawdd

### 12 Allyriadau Cymru


Graffeg cryno sy'n gwneud synnwyr o'r ffigurau



### 7 . Swyddi gwyrdd



### 10 . Cywiro'r gadwyn fwyd



### 12 . Allyriadau Cymru



# O ddifri yn lleol

Bydd ymgyrch newydd Cyfeillion y Ddaear Cymru,  
**O ddifri ynghylch CO<sub>2</sub>**, yn gofyn i awdurdodau lleol ymrwymo i  
wneud toriadau gwirioneddol mewn allyriadau carbon deuocsid

Chwaraeodd grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear ran fawr yn ein hymgyrch lwyddiannus a welodd gyflwyno deddf newid hinsawdd gyntaf y byd. Mae'r Ddeddf Newid Hinsawdd yn ymrwymo'r DU i dorri ei allyriadau nwyon tŷ gwydr gan 80 y cant erbyn 2050 - ond bydd cyflawni hyn yn amhosibl heb weithredu gan gynghorau.

Mae llywodraeth leol yn gyfrifol am lawer o feysydd yn ein bywyd ac yn rheoli cyllideb o £4 biliwn y flwyddyn yng Nghymru. Trafnidiaeth gyhoeddus, addysg ein plant, beth sy'n digwydd i'n gwastraff, beth adeiladir ble a chyflwr ein parciau a'n strydoedd - caiff y rhain i gyd eu rheoli gan ein cynghorau lleol.

Ac eto nid oes targed na chymhelliant yng Nghymru i gynghorau i dorri allyriadau carbon. Dyma'r bwch yn y cynllun cyfan - ac mae'n ddifrifol.

Felly mae ein grwpiau lleol yn dechrau bwrw ati i ymgyrchu eto. Y tro hwn eu nod yw gwneud yn siŵr nad yw'r targedau allyriadau yn stopio gyda llywodraeth ganolog.

Byddwn yn ymgyrchu ar y lefelau lleol, cenedlaethol a DU i gyd ar yr un pryd. Byddwn am weld gweithredu yn ein hardaloedd lleol i leihau allyriadau carbon, bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar dargedau gyda'r cynghorau, a bydd yn rhaid i Lywodraeth y DU gynorthwyo gydag ariannu'r gweithredu sydd ei angen.

Byddwn yn ymgyrchu am ymrwymiad gan bob cyngor i dorri allyriadau carbon gan 40% erbyn 2020. Bydd ein grwpiau lleol yn gweithio'n gyda chynghorau unigol ac yn cynnig cyngor iddynt ar sut gellir gwneud hyn.

Os bydd cynghorau o ddifri ynglŷn â mynd yn wyrdd - gwneud cartrefi yn fwy ynni effeithlon, gwella trafniadaeth leol ac annog busnesau i fuddsoddi mewn technolegau gwyrdd newydd - gall fod manteision economaidd a chyfleoedd swyddi ar ein cyfer ni oll.

**Er mwyn cyfranogi yn yr ymgyrch, cysylltwch ag ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru Haf Elgar ar 029 20 229577 neu [haf.elgar@foe.co.uk](mailto:haf.elgar@foe.co.uk)**

## RHIFYN 2 2009

Cyhoeddir **GweithreduGwyrdd** gan  
**Cyfeillion y Ddaear Cymru**

33 Oriel Arcêd y Castell  
Caerdydd CF10 1BY  
ffôn: 029 2022 9577  
ffacs: 029 2022 8775  
e-bost: [cymru@foe.co.uk](mailto:cymru@foe.co.uk)  
gwefan: [www.cyddcymru.co.uk](http://www.cyddcymru.co.uk)

Golygydd a chynllunydd:

**Simon Williams**

Is-olygydd:

**Ceri Parsons**

Cyfranwyr:

**Neil Crumpton, Haf Elgar, Jennifer  
Geddes, Gordon James, Bledwyn Lake**

Clawr: **Delwedd © Ian Homer**

Rhif Cwmni Cyfeillion y Ddaear  
Cyfyngedig 1012357

### Cyfeillion y Ddaear Cymru:

-  yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
-  yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwado y DG
-  yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 75 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir
-  yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru
-  yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm

Argraffwyd ar bapur a wnaed 100 y cant o wastraff ôl-ddefnyddiwr, gan ddefnyddio inciau llysiâu ac yn gwbl rydd o alcohol, gan argraffwr a chanddo achrediad amgylcheddol rhyngwladol ISO 14001



## Cefnogwch ni...

**Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn rhan o Gyfeillion y Ddaear Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae llawer o ffyrdd hawdd i chi gyfranu - o godi arian wrth chwilio'r rhyngwyd i gymryd rhan mewn digwyddiad codi arian**

Os nad ydych eisoes yn gefnogwr Cyfeillion y Ddaear beth am ymuno a ni heddiw? Bydd eich cyfraniad yn ein helpu i ddod o hyd i atebion i ddiogelu'r blaned a'i phobl yn awr ac i'r dyfodol. Ewch i [www.foe.co.uk/cymru](http://www.foe.co.uk/cymru) neu ffoniwch 0800 581 0510. Byddem yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth

Codwch arian ychwanegol ar ein cyfer drwy ddefnyddio peiriant chwilio'r rhyngwyd Everyclick. Cofrestrwch yn [www.everyclick.com/friendsoftheearthtrust](http://www.everyclick.com/friendsoftheearthtrust)

Gosodwch her i'ch hunan i drefnu neu gymryd rhan mewn digwyddiad codi arian ar gyfer Cyfeillion y Ddaear. Ewch i <https://www.foe.co.uk/events.html> neu ffoniwch 020 7490 1555 i ddarganfod sut mae gwneud

Newidiwch eich trydan i ffynhonnell sy'n 100% adnewyddadwy gan Good Energy a byddwn yn derbyn cyfraniad gwerth £50. Ewch i [www.good-energy.co.uk/foe](http://www.good-energy.co.uk/foe) neu ffoniwch 0845 456 1640, gan son am Gyfeillion y Ddaear

Os ydych yn poeni am y byd y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ei etifeddu, gadael rhodd yn eich Ewyllys i Gyfeillion y Ddaear yw un o'r pethau gorau gallwch ei wneud. Cewch wybod mwy yn [www.foe.co.uk/legacies](http://www.foe.co.uk/legacies) neu ffoniwch Maria ein Swyddog Gwybodaeth Cymynroddion ar 020 7566 1646

## Nid yw Cymru yn dwp

**Mae ffilm newydd rymus wedi lansio ymgyrch i greu miliynau o ymgyrchwyr newid hinsawdd**

Mae The Age of Stupid yn dangos cymeriad a chwaraeir gan Pete Postlethwaite ym myd diffeithiedig 2055, yn edrych yn ôl ac yn gofyn, "Pam na wnaethom ni atal newid hinsawdd pan gawsom ni'r cyfle?"

Anogir cynulleidfaoedd i ymuno yn yr ymgyrch 'Not Stupid', sy'n cyfiri'r dyddiau hyd nes y cynhelir Uwchgynhadledd Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn Copenhagen ym mis Rhagfyr (gweler Yn Gryno t.5).

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi gweithio gyda gwneuthurwyr y ffilm i gynnal sgriniad i ACau yn y Senedd, ac mae ein grwpiau lleol yn ei ddangos



Hola Pete Postlethwaite, fel y dyn olaf ar y Ddaear, 'Pam na wnaethom ni achub ein hunain?'

mewn lleoliadau ar draws Cymru.

Ewch i [www.ageofstupid.net](http://www.ageofstupid.net) neu cysylltwch â'ch grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear (gweler t.9). Ymunwch â'r ymgyrch: [www.notstupid.org](http://www.notstupid.org)

# THE AGE OF STUPID



Ian Homer

Gerald Miles, ymgyrchydd Gwrth-GM a ffermwr organig o Sir Benfro

## 21 mlynedd o amddiffyn yr amgylchedd

Ers 1988, a'i lwyddiant cyntaf yn ennill banc poteli i Arberth, mae Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro wedi bod yn gyfrifol am gyfres o ymgyrchoedd amgylcheddol o nod.

Mae'r llwyddiannau nodedig yn cynnwys gweithio gyda'r bobl leol i atal safle tirlenwi yn Creseli, cynorthwyo Ymgyrch Moroedd Glân Dinbych-y-pysgod i sicrhau system carthffosiaeth newydd o ansawdd uchel yn y dref, a gwrthwynebu safle gwastraff niwclear yn Nhrecŵn.

Diolch i weithredu cyfreithiol y grŵp yn erbyn y llywodraeth, mae'n rhaid i gwmnïau olew a nwy roi asesiadau effaith amgylcheddol ar gyfer drilio oddi ar arfordir Sir Benfro. Mae ei gynigion ar gyfer yr A40 wedi dylanwadu ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad, ac fe gymrodd

ymgyrch chwe blynedd i atal tanwydd orimwlsion budr rhag cael ei losgi yng Ngorsaf Bŵer Penfro.

Pan drawodd trychineb amgylcheddol Sir Benfro gydag arllwysiad olew y Sea Empress ym 1996, gweithiodd y grŵp yn ddiplino yn helpu i achub adar a orchuddiwyd gan olew a chynhyrchu'r adroddiad cyntaf ar y trychineb. Paratowyd achos ar gyfer erlyniad gan dîm Cyfreithiol Cyfeillion y Ddaear Llundain a gafodd ei ddatblygu gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Yn awr, gyda newid hinsawdd a buddsoddi mewn swyddi gwyrdd yn uchel ar yr agenda, mae Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro yn edrych ymlaen at 21 mlynedd arall o weithredu.

**Gweler tud 9 er mwyn cyfranogi yn eich grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear.**

## YN GRYNO

**Newyddion amgylcheddol o bob rhan o Gymru**

### DOES DIM ANGEN NIWCLEAR

Nid oes angen pŵer niwclear ar gyfer dyfodol carbon isel, eto mae cynlluniau ar y gweill i amnewid hen orsaf niwclear Wylfa o ar Ynys Môn. Mae'r cwmni ynni RWE wedi prynu tir nesaf at yr orsaf bresennol a chael cytundeb cysylltu gyda'r Grid Cenedlaethol. Mae'r addewid o swyddi wedi sicrhau cefnogaeth y rhan fwyaf o'r cyngor - er bod mwy o swyddi i'w cael mewn dulliau adnewyddol, effeithlonrwydd ynni a dal a storio carbon, heb adael etifeddiaeth angheuol.

### DIWRNOD DI-GAR

Ar 22 Medi bob blwyddyn caiff traffig ei wahardd o drefi ledled Ewrop. Am y diwrnod, mae'r strydoedd ar gael ar gyfer cerdded, beicio, theatr, cerddoriaeth, dawnsio a chelf. Yng Nghymru, mae Cyfeillion y Ddaear Trefynwy yn helpu sicrhau bod y dref yn mwynhau diwrnod di-gar, gyda digwyddiadau a fydd yn cynnwys teithiau beic a gweithgareddau plant. I wybod rhagor, neu i drefnu diwrnod di-gar yn eich tref, ewch i [www.dft.gov.uk/pg/sustainable/awareness/itwmc/](http://www.dft.gov.uk/pg/sustainable/awareness/itwmc/)

# A yw ynni yng Nghymru yn mynd yn fwy gwyrdd?

Mae cynhyrchu trydan yn ffynhonnell fawr allyriadau carbon sy'n newid hinsawdd yng Nghymru. Os ydym i fynd i'r afael â'n hallyriadau cynyddol, rhaid i ni ganfod ffyrdd i gynhyrchu pŵer glanach, a'i ddefnyddio yn fwy effeithlon

## Gwynt ar y môr

Mae cymeradwyo fferm wynt Gwynt y Môr, wyth milltir oddi ar arfordir Gogledd Cymru, wedi bod yn gam mawr ymlaen. Mae'r prosiect anferth hwn, a fydd yn darparu 10 y cant o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru, wedi wynebu gwrthwynebiadau uchel eu cloch. Ond mae Cyfeillion y Ddaear Cymru a'r Gynghrair Ynni Adnewyddadwy wedi casglu dros 2,000 o lythrau'n cefnogi, ac mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen

## Gwynt ar y tir

Mae rhai ffermydd gwynt ar y tir wedi cael caniatâd eleni, ond gyda llawer gormod yn cael gwrthwynebiad yn lleol, mae targedau Llywodraeth y Cynulliad ddwy flynedd y tu ôl i'r amserlen

## Ynni llanwol

Mae astudiaeth pŵer llanwol Afon Hafren yn rhygnu ymlaen. Mae nifer o ddewisiadau llawer gwell na morglawdd Caerdydd-Weston yn cael eu hystyried, ond hyd yma nid yw pŵer llanwol wedi cyfrannu'r un wat i gynhyrchiant ynni Cymru

## Gwres a Phŵer Cyfun nawr, os gwelwch yn dda

Tra bod pawb ohonom yn gwneud ein rhan dros effeithlonrwydd ynni, mae Llywodraeth y DU yn dal yn fodlon taflu ymaith gwerth 40 y cant o'r galw am drydan yng Nghymru mewn un penderfyniad. Bydd gorsaf bŵer nwy anferthol yn dymPIO symiau

## Effeithlonrwydd Ynni

Cymru sydd â'r 'parth carbon isel' mwyaf yn Ewrop, wedi ei ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni 40,000 o gartrefi ar draws Blaenau'r Cymoedd. Parthau carbon isel oedd prif argymhelliad adroddiad 'Home Truths' Cyfeillion y Ddaear, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007

## Housing

'Zero Carbon Hub Wales' yw grŵp newydd o aelodau allweddol o'r diwydiant adeiladu, sector tai a sector gwirfoddol. Nod yr Hub yw rhoi'r arweiniad sydd ei angen i gyrraedd targed uchelgeisiol Cymru i sicrhau bod holl dai newydd yng Nghymru yn cael eu hadeiladu i safon 'dim carbon' erbyn 2011

i bwysigrwydd ecolegol dyfrffordd Aberdaugleddau. Eto, mae defnyddio gwres gwastraff o'r fath drwy wres a phŵer cyfun (CHP) yn arfer cyffredin mewn nifer o wledydd, a dylai fod yn arfer awtomatig ar gyfer pob dull o gynhyrchu ynni yng Nghymru a'r DU

**DYFARNIAD:** A yw ynni yng Nghymru yn mynd yn fwy gwyrdd? Yn araf - ond mae ffordd bell i fynd eto

## LLOSGYDDION ANFERTHOL

Mae llosgyddion anferthol ar gyfer llosgi sbwriel wedi eu cynnig ar gyfer Caerdydd a Merthyr Tudful. Mae'r llyncwyr gwastraff hyn angen cyflenwad gwarantedig o wastraff am tua 25 mlynedd, er gwaethaf y targed ailgylchu 70% a'r angen cynyddol i leihau ac aildddefnyddio adnoddau. Mae pryderon ynglŷn ag effaith newid hinsawdd yr allyriadau, a llygredd posibl o'r gweithfeydd ac wrth gludo'r gwastraff. Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn ymgychu yn erbyn y cynigion.

## COPENHAGEN '09

Ym mis Rhagfyr 2009 cynhelir Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn Copenhagen i drafod cytundeb hinsawdd byd-eang newydd. Bydd Cyfeillion y Ddaear yn Ymgychu am doriadau o 40% erbyn 2020 heb wrthbwysu, a chymorth ariannol ar gyfer gwledydd sy'n datblygu. Yn dilyn wythnos o baratoi ym mis Tachwedd, bydd diwrnod o weithredu ledled y byd ar 5 Rhagfyr, a bydd Atal Anrhefn Hinsawdd Cymru yn trefnu digwyddiad. [www.stopclimatechaos.org/tags/Wales](http://www.stopclimatechaos.org/tags/Wales)

## GWERSYLL HINSAWDD CYMRU

Gallai Cymru weld rhagor o'r gwrthdystiadau hinsawdd a welwyd ar safle glo brig Ffos-y-Fran a gorsaf bŵer Aberddawan yn 2008. Bydd gwersyll hinsawdd, tebyg i'r rheini yn Heathrow a gorsaf bŵer Kingsnorth, yn cael ei gynnal yng Nghymru yr haf hwn. Mae un o brif wyddonwyr hinsawdd y byd, James Hansen o NASA, wedi dweud fod gwrthdystiadau heddychlon a gweithredu uniongyrchol yn ymatebion cyfreithlon i newid hinsawdd, oherwydd gweithredu annigonol llywodraethau.



# Yn y Cynulliad

**Dim ond geiriau a dim gweithredu? Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld rhai addewidion gwyrdd mawr gan Lywodraeth y Cynulliad. A allwn ni nawr ddisgwyl peth gweithredu, yw cwestiwn Haf Elgar**

**M**ae adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai gynhyrchiol a blaengar, a arweinir gan Jane Davidson, wedi cyhoeddi papurau ymgynghori diddiwedd yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae strategaethau ar ddatblygu cynaliadwy, newid hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, swyddi gwastraff a gwyrdd i gyd wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer Cymru wyrddach.

Ond a yw hyn yn ddim byd ond rhywbeth ar bapur? Er bod ymrwymadau i bolisiâu cynaliadwy ar draws llywodraeth, nid yw traffordd ar Wastadeddau Gwent wedi'i wrthod, cynigir llosgydd anferth ar gyfer Merthyr Tudful, ac mae'r cymhorthdal ar deithiau awyr Ynys Môn i Gaerdydd yn parhau. Mae rhai Gweinidogion yn brwydro i gytuno ar doriadau blynyddol o 3% yn flynyddol tra bod y wyddoniaeth ar newid hinsawdd yn dweud wrthym fod o leiaf 9% yn angenrheidiol, ac mae cynnydd y Comisiwn ar Newid Hinsawdd wedi bod

**Darren Millar (Ceidwadawyr), Mike German (Democratiaid Rhyddfrydol), Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) a Lesley Griffiths (Llafur) yn pori drwy 'Sut gallaf atal newid hinsawdd' Cyfeillion y Ddaear.**

yn boenus o araf.

Ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud ymrwymadau pendant i greu Parth Carbon Isel ar gyfer 400,000 o gartrefi, y mwyaf yn Ewrop ym Mlaenau'r Cymoedd, i gyflwyno treth bagiau plastig, ac i roi cyngor busnes ar gynaliadwyedd. Ac mae rhagor o ddiogelu'r amgylchedd gyda rheolau newydd cryf ar dyfu cynyau GM a'r perygl i niwed amgylcheddol. Gyda

**“ Mae rhai Gweinidogion yn brwydro i gytuno gyda'r toriadau 3% tra bod y wyddoniaeth yn dweud wrthym fod o leiaf 9% yn angenrheidiol ”**

Chynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac ymgyrch i ddilyn yn yr hydref mae gobaith y byddwn yn y diwedd yn gweld peth gweithredu gwirioneddol.

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd yr Amgylchedd, dan gadeiryddiaeth egniol Mick Bates, yn dod at ddiwedd ei ymchwiliad mawr ar leihau carbon yng Nghymru, sydd wedi parhau am bron



Simon Williams

**Haf Elgar, ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru yn y Senedd**

i ddwy flynedd, chwech o bynciau ac ymgynghoriadau ar wahân a degau o sesiynau tystiolaeth. Cafodd pedair set o argymhellion eu cyhoeddi, a disgwylir yr adroddiad terfynol erbyn hydref '09. Mae wedi bod yn ddarn sylweddol ac ymarferol ac wedi dangos gwerth y strwythur pwyllgor newydd.

Bydd gwleidyddiaeth y Cynulliad yn newid yn fawr yn y flwyddyn sydd i ddod gyda Rhodri Morgan yn dwyn ei gyfnod fel Prif Weinidog i ben ar ôl 10 mlynedd yn y swydd. Ac yntau wedi arwain y Cynulliad am bron ei holl hyd, bydd ei olynydd am roi ei stamp ei hunan ar gyfeiriad y llywodraeth i'r dyfodol.

Mae'n ymddangos hefyd y bydd rhagor o achosion Cynulliad yn erbyn y Llywodraeth yn digwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Penderfyniad allweddol fydd a oes gorsaf bŵer niwclear newydd i'w chodi ar Ynys Môn, sydd eisoes wedi ei gosod ar restr safleoedd addas gan Lywodraeth y DU. Er gwaethaf gwrthwynebiad y Cynulliad ar fater pŵer niwclear, gallai Llywodraeth y DU roi sêl ei bendith ar y cynllun. Ac achosir rhagor o ddrwgdeimlad gan weithdrefn y 'Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol' (LCO) drwy ba un y datganolir pwerau newydd o San Steffan i'r Cynulliad. Roedd un o'r cynigion cyntaf ar Ddiogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, mewn tagfa yn y Senedd am dros 18 mis cyn ei gyhoeddi yn derfynol ar ddechrau mis Mai. Ac mae'r LCO syml ddigon i drosglwyddo pwerau ar lwybrau beicio a cherdded di-draffig wedi dod ar draws rhwystrau niferus. I sefydliad sydd yn frwd dros dryloywder nid yw'r broses gymylog hon wedi rhoi fawr o gymorth i'r Cynulliad.

Felly ai dim ond geiriau yn unig yw hyn gan Lywodraeth Cymru neu a oes gweithredu gwyrdd gwirioneddol ar fin digwydd? Rydym yn dal yn obeithiol ●



# Y golau gwyrdd i swyddi gwyrdd

Wrth i arweinwyr byd alw am fargen newydd werdd newydd i achub yr economi byd-eang, mae Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, **Gordon James**, yn bwrw golwg ar beth all hyn olygu yng Nghymru

**M**ae wedi bod yn gyhuddiad cyfarwydd, er yn anghywir, sydd wedi ei anelu at amgylcheddwyr ers blynyddoedd - bod helpu'r amgylchedd yn dinistrio swyddi. Ond erbyn hyn mae nifer y bobl sy'n deffro i fanteision economaidd posibl buddsoddiad gwyrdd yn fwy nac erioed.

Mae Cyfeillion y Ddaear wedi dadlau ers amser maith y gall troi'n wyrdd greu swyddi. Dangosodd ein hadroddiad ym 1994 'Jobs and the Environment' bod gwario arian ar adeiladu rheilffyrdd yn creu mwy o swyddi na'r gwariant cymharol ar adeiladu ffyrdd, bod ynni gwynt yn creu mwy o swyddi am bob uned o drydan gaiff ei chynhyrchu na gorsafoedd pŵer niwclear na glo, a bod ffermio organig a rheoli coedwigoedd yn grewir swyddi rhagorol.

Nawr, gyda'r dirwasgiad byd-eang yn gwasgu, mae awdurdodau ledled y byd yn edrych i'r economi werdd fel ffordd allan o'r argyfwng ariannol. Mae'r Arglwydd Stern, cyn brif economegydd Banc y Byd, wedi galw ar arweinwyr byd i roi cannoedd o biliynau o bunnoedd i fuddsoddiadau gwyrdd. Mae arweinydd yr UN, Ban Ki-moon, wedi galw am 'Fargen Newydd' werdd byd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r dirwasgiad. Yn yr UDA mae'r Arlywydd Obama yn bwriadu creu pum miliwn o swyddi gwyrdd, tra bo'r UE yn buddsoddi dros 100 biliwn ewro mewn swyddi a thwf gwyrdd.

Cred Gordon Brown y gall y DU greu hyd at 400,000 o swyddi gwyrdd mewn wyth mlynedd, ac yma yng Nghymru, mae ein Llywodraeth wedi ymgynghori ar strategaeth swyddi gwyrdd. Ynddo, dywed y Gweinidogion Jane Davidson ac Ieuan Wyn Jones, "Nawr yw'r amser iawn i weithredu ar swyddi gwyrdd."

Mae cyfle gwyhych i Gymru chwarae rôl flaenllaw yn y chwyldro diwydiannol gwyrdd, ond mae llawer o waith i'w wneud. Mae gormod o gartrefi a swyddfeydd yng Nghymru ddim yn ynni effeithlon, gan gostio arian i fusnesau a chyfrannu at dlodi tanwydd. Mae gennym sector organig sy'n ffynnu yng Nghymru, ond mae ein hamaethyddiaeth yn parhau i fod yn ddwys ar y cyfan. Mae twristiaeth werdd, er ei bod erbyn hyn yn fwy

cyffredin ac uchel ei phroffil, yn dal yn dameidiog ac yn ddibynnol ar ymrwymiad busnesau unigol.

Ond mae'r symud dramatig ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth ar lefel Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, yn dangos bod ewylls gwleidyddol o'r diwedd mewn cytgord â'r hyn y mae Cyfeillion y Ddaear a'i gefnogwyr wedi bod yn gweithio tuag ato ers blynyddoedd.

Yn fwy nag erioed, mae'r amgylchiadau'n ymddangos yn ffafriol ar gyfer trawsnewid i economi werdd fyd-eang. Gallai hyn greu miliynau o swyddi, tra'n torri allyriadau carbon a gwella sicrwydd ynni. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad 'Swyddi gwyrdd yng Nghymru' mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn pwysleisio'r angen am newid radical i wneud yn siŵr fod Cymru yn chwarae ei rhan mewn taelo'r

## “ Nawr yw'r amser iawn i weithredu ar swyddi gwyrdd ”

dirwasgiad presennol a bygythiad newid hinsawdd.

Mae'r argymhellion yn cynnwys gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer creu swyddi gwyrdd, mwy o bwyslais ar addysg a hyfforddiant ar gyfer y sector gwyrdd, sefydlu cynllun adferiad tebyg i'r un sy'n cael ei ddatblygu yn UDA, ac i newid hinsawdd i fod yn brif gyfrifoldeb polisi economaidd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi gosod ei 'safbwynt gwyrdd', gyda thargedau uchelgeisiol i ailgylchu 70 y cant o wastraff a chynhyrchu trydan Cymru yn gyfangwbl o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025. Mae hefyd wedi dangos arweiniad mewn sefydlu polisi adeiladau di-garbon, bum mlynedd o flaen Lloegr, a'i nod yw torri allyriadau nwyon tŷ gwydr gan dri y cant y flwyddyn o 2011 mewn meysydd lle mae grym wedi ei ddatganoli.

Mae'r rhain yn arwyddion calonogol y bydd argymhellion Cyfeillion y Ddaear yn ddylanwadol mewn llunio'r strategaeth derfynol.

Yng nghanol yr holl dywyllwch economaidd, mae'n ymddangos y gallai fod golau ar ben arall y twnnel - ac mae'r golau hwnnw'n wyrdd.

## BETH YW SWYDD WERDD?

Nid dim ond ffermio organig a thwristiaeth eco sy'n creu swyddi gwyrdd. Mae gweithgynhyrchu, technoleg ac adeiladu i gyd yn elwa o fod yn wyrdd hefyd

### Excel

Rhymni, Tredegar  
Cyflogedig: 58  
Cynhyrchu ffeibr inswleiddio gan ddefnyddio papur newydd a aligylchwyd, a chynhyrchion adeiladu eraill o ddeunyddiau cynaliadwy neu sydd wedi eu hailgylchu

### Filsol Solar

Pont-henri, Sir Gaerfyrddin  
Cyflogedig: 13, 70 o isgcontractwyr  
Cynllunio, cynhyrchu, cyflenwi a gosod offer cynhesu dŵr a ffotofoltäig solar

### Crest Co-operative

Cyffordd Llandudno  
Cyflogedig: 35-40  
Prosiectau yn cynnwys 'Yn Groes i'r Graen', yn adennill pren gan y diwydiant adeiladau a 'Trash and Carry', yn darparu deunydd ar gyfer celf a achubwyd o wastraff busnes

### Sharp UK

Wrecsam  
Cyflogedig: 400 - 500  
Ffatri yn cynhyrchu 4,000 o baneli solar bob dydd. Yn datblygu goleuadau amwynder pŵer solar fel cynnyrch newydd posibl

### Durisol

Crymlyn, Gwent  
Cyflogedig: 11  
Cynllunio a chynhyrchu deunydd adeiladu arloesol, gydag 80% ohono wedi ei wneud o bren a ailgylchwyd. Mae perfformiad inswleiddio thermal y deunydd yn ardderchog

### Anthony A Davies

Y Fenni  
Cyflogedig: 50  
Cwmni gwaith coed ac adeiladau. Gweithio gyda chynnyrch calch, cynhyrchu ffenestri a drysau pren wedi'i lamineiddio yn amgylcheddol gyfeillgar.



**Ym mhob rhan o Gymru mae pobl yn gwneud eu byd yn lle gwyrddach. Lle bynnag yr ydych yn byw, gallwch gyfranogi mewn grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear**

## Bod yn weithredol



**Mae Sam Rex wedi bod yn aelod o grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear Llangollen ers ei ffurfio yn 2007. Felly, beth yw'r ymgyrchoedd a'r materion sy'n ei hysbrydoli hi a beth fydd y grŵp yn ei wneud nesaf?**

### Beth wnaeth i chi ymuno i ddechrau?

Meddyliais y byddai aelodau'r grŵp yn wirioneddol ddiddorol i weithio gyda nhw. Ac mae Llangollen yn dref mor hardd, ymddangosai yn ffordd dda i weithio ar faterion yn lleol a chenedlaethol.

### Yr ymgyrch leol fwyaf llwyddiannus?

Roedd ymgyrch Llangollen di-fagiau plastig yn ymgyrch y bu pawb yn y grŵp yn rhan ohoni, roedd yn ymarferol ac fe ddatblygodd gysylltiadau cadarnhaol gyda siopau lleol, ysgolion a chynghorwyr. Efallai bod rhai yn amheus am werth ymgyrch mor fach ond roedd yn gymorth gwirioneddol i'n sefydlu ni fel grŵp.

### Yr Ymgyrch genedlaethol fwyaf ysbrydoledig?

Yr Her Fawr, a arweiniodd at i Lywodraeth y DU gyflwyno'r ddeddf newid hinsawdd gyntaf yn y byd. Yn fwy na thebyg am yr un rheswm fe

ysbrydolodd filoedd o bobl eraill - profodd beth allwn ni ei gyflawni.

### Y broblem amgylcheddol fwyaf sy'n wynebu Cymru heddiw?

Yr ymateb annigonol i newid hinsawdd. Ac mae canlyniadau amgylcheddol bod ag isadeiledd trafnidiaeth mor wael yn fater anferth i Gymru.

### Eich cyngor gwyrdd gorau?

Siarad am faterion yr ydych yn frwd amdanynt mewn modd sy'n cysylltu â phobl sydd â gwahanol safbwyntiau. Mae'n beth anodd ei wneud, ond mae'n rhaid i ni, neu byddwn dim ond yn tramgwyddo pobl.

### Felly beth nesaf i Langollen?

Rydym newydd gytuno i weithio ar yr ymgyrch O Ddifri ynghylch CO<sub>2</sub> (gweler tud 3). Mae rhai o'r grŵp wedi hyfforddi i wneud arolygon ynni cartrefi, mae grŵp arall yn gweithio ar ymgyrch siopa leol, ac mae'r gwaith hepgor bagiau plastig yn parhau.



Simon Williams

## Bleddyn Lake

Swyddog Datblygu Grwpiau Lleol

“ Os ydych yn ystyried cychwyn grŵp newydd, cysylltwch â mi ac fe'ch cynorthwyaf i drefnu cyfarfod gyda phentwr o gyhoeddusrwydd. Yr oll sydd ei angen arnoch yw digonedd o frwdfrydedd a'r ysfa i droi'ch byd yn lle ychydig gwyrddach. ”

## Sut i gymryd rhan

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau'n cwrdd unwaith y mis ac yn gweithio ar amryw o ymgyrchoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang - cewch hyd i'r cyswllt perthnasol ar gyfer eich grŵp lleol ar y map gyferbyn. Os hoffech gychwyn grŵp newydd, cysylltwch â Bleddyn ar 02920 229 577, neu ar [bleddyn.lake@foe.co.uk](mailto:bleddyn.lake@foe.co.uk)

## “Onid chi yw'r rhai sy'n dweud na wrth bopeth?”

Wel, na fel mae'n digwydd. Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear bob amser wedi hyrwyddo atebion, nid dim ond gwrthwynebu distryw amgylcheddol. Daw ein llwyddiant fel mudiad o'n hymrwymiad i faterion lleol, ynghyd â'n hymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Yr egwyddor 'Meddwl yn Fyd-eang, Gweithredu'n Lleol' sy'n ein gosod ar wahân.

Mae grwpiau lleol yng Nghymru wedi sefydlu a chefnogi amrywiaeth eang o brosiectau a gweithgareddau gwyrdd. O hyrwyddo cynnyrch lleol ac organig, i ailgylchu ac ynni adnewyddadwy - prosiectau sydd wedi gwneud gwir wahaniaeth yn ein cymunedau.

Ond nid oes amheuaeth fod grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear hefyd wedi

bod yn warchodwyr amgylcheddol Cymru. O safleoedd gwastraff tocsig i ddatblygu amhriddol, maent wedi ymladd yn llwyddiannus yn erbyn cynigion yn eu hardaloedd a fyddai wedi bygwth yr amgylchedd i bawb.

Nid dim ond meddwl am gardd gefn eu hunain, mae'r grwpiau lleol wedi chwarae rhan anferth mewn ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Bu ein grwpiau yn rhan o gadw Cymru yn ddi-GM a sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r ddeddf newid hinsawdd gyntaf. Ac mae grwpiau lleol yn rhan hollbwysig o'n mudiad rhyngwladol, gan weithio'n galed i hyrwyddo cytundeb byd-eang effeithiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn Copenhagen fis Rhagfyr.

## Dywedwch le

Bu grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear y tu cefn i bob math o weithredu cadarnhaol yng Nghymru yn cynnwys:

- Marchnadoedd ffermwyr
- Ardaloedd Di-GM
- Cynlluniau ailgylchu
- Llwybrau diogel i'r ysgol
- Prosiectau ynni
- adnewyddadwy
- Mentrau siopa'n lleol
- Gwyliau bwyd organig
- Cyfeirlyfrau gwyrdd lleol
- Addysg effeithlonrwydd ynni
- Cyfnawid hadau



## Grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru

- 1 Abertawe**  
Roy Jones 01792 813 600  
Roy@gellideg.demon.co.uk  
www.wildlifewebsite.com/foe
  - 2 Aberystwyth**  
John Crocker 01974 272218  
aberystwythfoe@yahoo.co.uk  
www.foe.co.uk/aberystwyth
  - 3 Caerdydd**  
Raoul Bhambral 0750 492 8248  
info@foecardiff.co.uk  
www.foecardiff.co.uk
  - 4 Caerffili**  
Bleddyn Lake 029 2022 9577  
bleddyn.lake@foe.co.uk  
www.foe.co.uk/caerphilly
  - 5 Caerfyrddin**  
Steve Hack steve@carmarthenfoe.org  
Chris Corcoran 01267 223023  
www.foe.co.uk/carmarthen
  - 6 Calon Cymru**  
Janine Wilbraham 01597 870039  
janinewilbraham@googlemail.com  
www.foe.co.uk/heartofwales
  - 7 Cas-gwent**  
Janet Rawlings 01291 625 977  
janet@alg.myzen.co.uk  
www.chepstowfoe.org.uk
  - 8 Casnewydd**  
David Yates dave.yates3@btinternet.com  
www.foe.co.uk/newport
  - 9 Castell Nedd Port Talbot**  
Tina Richards 01639 771 183  
tina\_761@hotmail.com  
www.foe.co.uk/neath
  - 10 Dyffryn Clwyd**  
Ursel Luhde 01745 550 426  
ursel@cadarn.demon.co.uk  
www.foe.co.uk/clwyd
  - 11 Llangollen**  
Sam Rex 01978 862 913  
extinct\_rex@hotmail.com  
www.foe.co.uk/llangollen
  - 12 Llanidloes**  
Frances Browne 01686 412 788  
info@earthlightcrystals.co.uk  
www.foe.co.uk/llanidloes
  - 13 Môn a Gwynedd**  
David Stephenson 01248 810236  
rick.mills@btinternet.com  
www.foe.co.uk/monagwynedd
  - 14 Pontypridd a'r cylch**  
Kat Nicholson, Richard Reast  
01443 402 317  
pontypriddfoe@googlemail.com  
www.foe.co.uk/pontypridd
  - 15 Sir Benfro**  
Ellie Clegg 07800 789 930  
silhouette@cooptel.net  
www.foepembrokeshire.co.uk
  - 16 Sir y Fflint**  
Rob Owen 01352 710 714  
glynowen@holywellcomputers.co.uk  
www.foe.co.uk/flintshire
  - 17 Trefynwy**  
Sue Parkinson  
sueparkinson@phonecoop.coop  
www.monmouthshiregreenweb.co.uk/  
madfoe/
  - 18 Torfaen**  
Carole Jacob 01633 875627  
carole.jacob48flc@ntlworld.com  
www.torfaenfoe.org.uk
  - 19 Y Barri**  
Keith Stockdale 01446 734368  
k.stockdale@homecall.co.uk  
www.foe.co.uk/barry
  - 20 Y Fenni a Chrucywel**  
Barry Greenwood 01873 852245  
bandjgreenwood@talktalk.net  
www.foe.co.uk/abergavenny
  - 21 Y Gelli Gandryll**  
Gareth Howell-Jones  
administrator@cyrusgardendesign.co.uk  
www.foe.co.uk/hayonwy

# Ewch â hen fag i siopa

Caiff bag plastig ei ddefnyddio ar gyfartaledd am 15 munud, gyda phawb yn defnyddio tua 300 ohonynt y flwyddyn. Nid dim ond gwastraff ar adnoddau yw hyn - mae bagiau a deflir yn lladd hyd at 1 miliwn o adar y môr a 100,000 o famaliaid y môr y flwyddyn.

Mae grwpiau lleol yng Nghymru wedi bod wrthi'n frwd yn annog siopwyr i gael gwared ar fargiau plastig tila o blaid bagiau defnydd neu hesian sy'n gadarnach ac y gellir eu haildefnyddio. Cyfeillion y Ddaear Llangollen ddechreuodd arni gydag wythnos dim bagiau plastig lwyddiannus iawn pan oedd masnachwyr lleol yn cynnig

bagiau jiwt a bagiau starts corn  
biobydradwy; a chwaraeodd plant ysgol  
eu rhan drwy ddylunio loqos.

Ers hynny mae Cyfeillion y Ddaear Pontypridd wedi trefnu diwrnod dim bagiau plastig anferthol cyn Nadolig 08, gyda chefnogaeth yr AC Lleol, a Gweinidog Amgylchedd y Cynulliad, Jane Davidson. Mae grŵp Caerffili wedi llwyddo i gael cymorthdal ar gyfer dros 10,000 o fagiau defnydd Masnach Deg, wedi eu dylunio gan blant Lleol, i'w dosbarthu yn ysgolion yr ardal.

Mae grwpiau Y Fenni a Chrucywel, Calon Cymru a Chas-gwent hefyd wedi arwain y ffordd i gael gwared ar faigiau



plastig. Gyda threfi, dinasoedd a hyd yn oed gwledydd cyfan ledled y byd yn gwahardd bagiau plastig, ni fu erioed amser gwell i weithredu a gwneud eich cymuned chi yn un di-fagiau plastig.

# Cywiro'r gadwyn fwyd



**Efallai y gallech feddwl bod yr olygfa nodweddiadol o gefn gwlad Cymru gyda gwartheg yn pori mewn caeau gwyrdd ddim yn cyfrannu i newid hinsawdd. Ond beth sy'n bwydo'r gwartheg hyn drwy'r gaeaf?**

**A**wydddech chi fod y diwydiant cig a llaeth yn achosi mwy o allyriadau newid hinsawdd na phob awyren, trên a char ar y blaned? Ac yma yng Nghymru mae bwyd yn cyfrif am 20% o'n hól troed ecolegol - ac nid yw hyn hyd yn oed yn cynnwys yr ynni a ddefnyddir i goginio a theithio i siopau.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ffermwyr Cymru wedi gwneud yn dda i hyrwyddo delwedd o gynnyrch naturiol o safon uchel. Dyma pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi newid i ffermio organig, yn gwrthwynebu cynyda GM, yn torri'r cyswllt rhwng y nifer o anifeiliaid a gynhyrchir a'r cymorthdaliadau a gaiff ffermwyr ac yn defnyddio cronfeydd y GE i gefnogi cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Ond mae llawer iawn eto i'w wneud. Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr da byw yn Ewrop, a rhai ffermwyr da byw yng Nghymru, yn dibynnu ar fewnforio bwydydd anifeiliaid, fel arfer soia o blanhigfeydd yn Ne America. Mae cynyda soia a dyfir i fwydo ieir, gwartheg a moch yn Ewrop yn defnyddio ardal yn Ne America sy'n barod yn fwy ei maint na'r DU ac mae'n tyfu'n gyflym. Mae'r torri a'r clirio yma ar Fforestydd Glaw'r Iwerydd yn bygwth bywyd gwyllt ac yn gwaethygu newid hinsawdd. Os bydd y patrymau presennol yn parhau caiff ardal enfawr, 40 y cant o ddyffryn afon Amazon, ei cholli i ffermio soia a bridio gwartheg ar ffermydd enfawr erbyn 2050.

Dyma ran gudd y gadwyn fwyd sy'n rhaid i ni ei chywiro.

Mae'n rhaid iddi fod yn haws ac yn fwy fforddiadwy i ffermwyr naill ai dyfu eu bwydydd anifeiliaid eu hunain, neu i brynu'r hyn a gynhyrchir yn lleol. Gallai hyn hefyd wneud amaethyddiaeth Cymru yn fwy cadarn i wrthsefyll ffactorau allanol ansefydlog, megis prisiau soia byd-eang a gwerth y bunt.

Rhan o'r mater yw gadael i ddefnyddwyr wybod o ble y daw eu bwyd fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Nid yw'r rhan fwyaf o'r bwyd sydd ar werth yn yr archfarchnadoedd yn dod o Gymru, ac anaml y bydd yn cynnwys gwybodaeth lawn am y gadwyn fwyd yn ei chyfanrwydd. A dim ond 22% o ddiodydd a bwydydd a brynir gan y sector cyhoeddus yn 2007 ddaeth o Gymru, gostyngiad o gymharu â 2005.

Bydd Cyfeillion y Ddaear yn ymgychu am gyfraith yn y DU i gefnogi'r weledigaeth o ffermio sydd ddim yn golygu rheibio'r fforestydd glaw. Mae hynny yn cynnwys newid mewn cymorthdaliadau'r DU i fwrdd o gynhyrchu da byw dwys i ffermio ac amaethu cynaliadwy, gan gynorthwyo ffermwyr i dyfu eu bwydydd anifeiliaid eu hunain a gwneud yn siŵr bod y bwyd a brynir gydag arian cyhoeddus, megis mewn ysgolion ac ysbytai yn gynaliadwy.

Er mwyn cyfranogi yn yr ymgrych, cysylltwch ag ymgrychydd Cyfeillion y Ddaear Cymru Haf Elgar ar **029 20 229577** neu [haf.elgar@foe.co.uk](mailto:haf.elgar@foe.co.uk)



## Mae nifer o brosiectau bwyd da eisoes yn digwydd o amgylch Cymru. Helpwch ni i'w gwneud yn bethau arferol nid yn eithriadau

### Fferm Tyn-Y-Fron, Powys

Mae Tyn-Y-Fron, ym Mochdre, ger y Drenewydd, yn un o'r llwyddiannau yn hanes ffermio organig Cymru. Mae Jonathan a Sally Rees yn cyflenwi prif dai bwyta ledled Cymru a Lloegr gyda'i cig eidion a'i porc organig o safon, sydd wedi ei gynhyrchu ar fwyd a gynhyrchir ar y fferm. Yn ystod misoedd yr haf mae eu hanifeiliaid yn pori'n rhydd ar y caeau tra yn y gaeaf mae eu bwyd yn cynnwys llystyfiant a dyfir ar y fferm megis kale i'r gwartheg ac erfin i'r moch. Mae'r system hon hefyd yn arbed llawer o arian i'r fferm gan leihau'r angen i brynu bwydydd a fewnforir sy'n ddrud.

"O ganlyniad i dyfu'r rhan fwyaf o'n bwydydd gaeaf ein hunain rydym mor agos ag y gellir bod at fod yn hunangynhaliol. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ni yn ariannol, ac mae hyn mor bwysig mewn ffermio heddiw," meddai Jonathan.

### Fferm Clynyfw, Sir Benfro

Mae fferm Clynyfw ger Castellnewydd Emlyn wedi bod yn fferm deuluol teulu Lewis- Bowen ers 1750, ac mae'n enghraifft arall o ffermio cynaliadwy llwyddiannus. Cedwir yr anifeiliaid ar ddwystr stoc isel er mwyn caniatáu rhagor o le i gynhyrchu bwydydd anifeiliaid ar y safle.

"Mae gennym fwy na digon o borfa i bori ac rydym yn gwneud yr holl wair a'r silwair sydd ei angen arnom ar gyfer bwyd i'r gaeaf ar ein tir ein hunain," meddai Tom Lewis-Bowen, sy'n rhedeg gwaith o ddydd i ddydd y fferm.

"Nid ydym yn prynu unrhyw fwydydd anifeiliaid i mewn o gwbl. Mae'r gwartheg yn derbyn symiau bach o farlys a rowliwyd yr ydym yn ei dyfu'n hunain ac rydym hefyd yn gwerthu grawnfwyd i ffermwyr organig eraill."

### Bwydydd Cymunedol Cydweithredol

Mae Richard Reast, cydlynnydd Cyfeillion y Ddaear Pontypridd, yn gweithio gyda'r Uned Adfywio Gwledig, sefydliad dim er elw sydd wedi derbyn arian gan Lywodraeth y Cynulliad i sefydlu rhwydwaith o fentrau bwyd cydweithredol yng Nghymru.

Gwaith Richard yw cysylltu gwirfoddolwyr gyda chyflenwyr lleol i ddarparu ffrwythau a llysiau fforddiadwy o ansawdd i gymunedau difreintiedig.

"Ar hyn o bryd mae tua 200 o fentrau bwyd cydweithredol yng Nghymru sy'n cyflenwi rhagor na 6,000 o deuluoedd ac sydd â throsiant o tua £1 miliwn y flwyddyn," meddai Richard.

"Mae'r manteision yn eang iawn i gwsmeriaid a chyflenwyr. Mae pobl yn bwyta rhagor o ffrwythau a llysiau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd, tra bod ffermwyr a chynhyrchwyr yn cael ffynhonnell incwm ychwanegol a sicr."



Disgyblion o Ysgol Gynradd Catwg Castell-nedd yn ymweld â fferm yn Llanrhidian sy'n cyflenwi llysiau i'w siop fwyd




# Allyriadau yng Nghymru

## Allyriadau CO<sub>2</sub> y pen ('06)

Mae allyriadau yng Nghymru yn uwch nag yng ngwledydd eraill y DU yn bennaf oherwydd:

- sector gweithgynhyrchu fwy ei maint o gymharu â'r boblogaeth
- stoc tai waeth
- caiff 11% o'r trydan a gynhyrchir yng Nghymru ei allforio i weddill y DU




Trefn yn ôl gwledydd y byd, **Cymru.....18th** **Yr Alban.....47th**  
allyriadau CO<sub>2</sub> uchaf y pen **Lloeger.....56th** **Gogledd Iwerddon..43rd**

## Nwyon Tŷ gwydr

Nwyon a fesurwyd ers Protocol Kyoto (dengys y ffigurau ganran cyfanswm y DU):

|                      |        |
|----------------------|--------|
| Carbon Dioxide       | 85%    |
| Methane              | 7.5%   |
| Nitrous Oxide        | 5.8%   |
| Hydrofluorocarbons   | } 1.6% |
| Perfluorocarbons     |        |
| Sulphur hexafluoride |        |

## Gostyngiad allyriadau CO<sub>2</sub> (1990-2006):



## Targedau lleihau allyriadau

### Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i leihau nwyon tŷ gwydr erbyn 2011, gan **3%** y flwyddyn mewn 'meysydd lle mae pwerau wedi eu datganoli'

### DU

Mae'r Ddeddf Newid Hinsawdd (Tachwedd '08) yn awr yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y DU ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf yn **80%** yn is na gwaelodlin 1990

### Ffynonellau

'Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales and Northern Ireland: 1990-2006'  
DEFRA, The Scottish Government, WAG and the Northern Ireland Department of Environment

'Carbon Dioxide Emissions in Wales'  
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau / Members Research Service (2009)

## Prif ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru ('06)

|                     |     |
|---------------------|-----|
| Gorsafoedd pŵer     | 27% |
| Haeam a Dur         | 13% |
| Trafnidiaeth ffyrdd | 12% |
| Amaethyddiaeth      | 11% |
| Preswylol           | 9%  |
| Diwydiannol eraill  | 8%  |
| Purfeydd olew       | 6%  |
| Tirlenwi            | 2%  |
| Eraill              | 12% |

